Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur: 2018 a 2019 (dros dro)

Gwybodaeth am y gweithgareddau dysgu a statws y farchnad lafur ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed ar gyfer 2018 a 2019 (dros dro).

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Gorffennaf 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Gorffennaf 2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

1. Prif bwyntiau

2. Cyfranogiad pobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg ac yn y farchnad lafur

3. Cyfranogiad pobl ifanc 19 i 24 oed mewn addysg ac yn y farchnad lafur

4. Cyd-destun Polisi/Gweithredol

5. Gwybodaeth allweddol o ansawdd

Manylion cyswllt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Darperir amcangyfrifon terfynol ar gyfer 2018 ac amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2019 sy’n defnyddio’r data gorau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer pob agwedd ar gyfranogiad; mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddata terfynol, rhywfaint o ddata dros dro a rhywfaint o fodelu.

Mae’r datganiad hwn yn darparu’r ffynhonnell ddiffiniol ar gyfer amcangyfrifon o gyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys data ar gyfer un o’r 46 dangosydd lles cenedlaethol.

# 1. Prif bwyntiau

## Pobl ifanc 16 i 18 oed

- Cyfranogiad pobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg a hyfforddiant wedi cynyddu i 78.3% yn 2019 o gymharu â 77.6% yn 2018.
- Y gyfran mewn cyflogaeth wedi gostwng o 38.5% yn 2018 i 36.3% yn 2019. Cyn hyn, roedd y gyfran wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2011.
- Cyfran y rhai sy’n NEET wedi cynyddu i 11.1% yn 2019 o 10.6% yn 2018.

## Pobl ifanc 19 i 24 oed

- Mae cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg neu hyfforddiant wedi cynyddu i 39.5% yn 2019 o 38.8% yn 2018.
- Y gyfran mewn cyflogaeth wedi gostwng 64.0% yn 2018 i 63.4% yn 2019. Roedd y gyfran hon wedi cynyddu bob blwyddyn rhwng 2013 a 2018.
- Y gyfran a oedd yn NEET yn 2019 oedd 15.7%, gostyngiad bychan o gymharu ag 16.0% yn 2018. Mae’r gyfran hon wedi gostwng bob blwyddyn dros y 7 mlynedd diwethaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 2. Cyfranogiad pobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg ac yn y farchnad lafur

Mae Siart 1 yn dangos y tueddiadau cyfranogiad mewn addysg neu hyfforddiant, ac mewn cyflogaeth i bobl ifanc 16 i 18 oed ers 2004.

Cyn 2008, arhosodd cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed a oedd mewn addysg neu hyfforddiant ar yr un lefel fwy neu lai, sef 74% i 76%. Yn dilyn dechrau'r dirwasgiad yn 2008, cafwyd cynnydd yng nghyfran pobl ifanc 16 i 18 oed a oedd mewn addysg neu hyfforddiant, i lefelau o tua 80%. Yna, gostyngodd y gyfran hon rhwng 2013 a 2018 cyn cynyddu ychydig i fod yn 78.3%.


Mewn cyferbyniad, gostyngodd cyfran y bobl ifanc 16 i 18 oed mewn cyflogaeth yn gyffredinol o 2004, gyda gostyngiadau ychydig yn fwy rhwng 2007 a 2009. Rhwng 2011 a 2018 cynyddodd cyn gostwng i 36.3% yn 2019.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 1: Cyfranogiad pobl ifanc 16 i 18 oed mewn addysg ac yn y farchnad lafur, 2003 i 2019




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Y Brifysgol Agored ac CCAUC

**Cyfranogiad oedolion a phobl ifanc ar gyfer StatsCymru**

# Cyflogaeth

- Yn 2019, roedd 36.3% o bobl ifanc 16 i 18 oed mewn cyflogaeth lawn amser neu ran-amser.
- Amcangyfrifwyd bod 25.7% o bobl ifanc 16 i 18 oed mewn rhyw fath o addysg neu hyfforddiant ac mewn cyflogaeth yn 2019, ychydig o ostyngiad o gymharu â 26.8% yn 2018. Myfyrwyr mewn addysg lawn amser a oedd hefyd yn gweithio'n rhan-amser oedd y rhan fwyaf o'r rhain.
- Yn ogystal, roedd 10.6% mewn cyflogaeth lawn amser neu ran-amser ond nid mewn addysg na hyfforddiant yn 2019, gostyngiad o 2018 (11.8%).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Addysg a hyfforddiant

- Roedd 78.3% o bobl ifanc 16 i 18 oed yn cymryd rhan mewn rhyw fath o addysg neu hyfforddiant (llawn amser neu ran-amser) yn 2019.
- Roedd cyfranogiad mewn addysg lawn amser yn 64.2%, yr un fath â 2018.
- Roedd cyfran uwch o ferched 16 i 18 oed mewn addysg lawn amser. 67.9% o gymharu â 60.7% o fechgyn yn 2019.
- Yn ôl blwyddyn oedran unigol, roedd 72.9% o’r holl bobl ifanc 16 oed mewn addysg lawn amser yn 2019 o gymharu â 64.5% o bobl ifanc 17 oed a 55.4% o bobl ifanc 18 oed.
- Roedd mwy o fechgyn na merched yn cymryd rhan mewn hyfforddiant. Roedd 6,800 o bobl ifanc 16 i 18 oed yn cymryd rhan mewn hyfforddiant (cyrsiau dysgu seiliedig ar waith a hyfforddiant cysylltiedig â swydd) yn 2019. Mae hyn oddeutu 8.4% o’r holl fechgyn yn y grŵp oedran hwn o gymharu â 5.0% o ferched.

## Ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

- Amcangyfrifwyd bod 11,200 o bobl ifanc 16 i 18 oed (11.1%) yn NEET, o gymharu â 10,800 (10.6%) yn 2018.
- Roedd hyn yn cynnwys 4,100 o bobl ifanc ddi-waith a 7,100 a oedd yn economaidd anweithgar.
- Roedd 12.2% o fechgyn 16 i 18 oed yn NEET o gymharu â 10.0% o ferched.

# 3. Cyfranogiad pobl ifanc 19 i 24 oed mewn addysg ac yn y farchnad lafur

Mae Siart 2 yn Dangos y tueddiadau cyfranogiad mewn addysg neu hyfforddiant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ac mewn cyflogaeth i bobl ifanc 19-24 oed ers 2004.

Arhosodd y gyfran mewn addysg neu hyfforddiant ar yr un lefel fwy neu lai dros y cyfnod hwn, sef 37% i 39%. Cynyddodd y gyfran hon i 39.5% yn 2019. Mewn cyferbyniad, gostyngodd y gyfran mewn cyflogaeth ar ôl dechrau dirwasgiad 2012 i 2017. Yna, cynyddodd bob blwyddyn hyd at 2018 cyn gostwng ychydig i fod yn 63.4% yn 2019.

**Siart 2: Cyfranogiad pobl ifanc 19 i 24 oed mewn addysg ac yn y farchnad lafur, 2003 i 2019**




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Y Brifysgol Agored ac CCAUC

**Cyfranogiad oedolion a phobl ifanc ar gyfer StatsCymru**

## Cyflogaeth

- Yn 2019, roedd 63.4% o bobl ifanc 19 i 24 oed mewn cyflogaeth lawn amser neu ran-amser.
- Roedd 44.8% o bobl ifanc 19 i 24 oed mewn cyflogaeth lawn amser neu ran-

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

amser ond nid mewn addysg neu hyfforddiant yn 2019.
- Yn ogystal, amcangyfrifwyd bod 18.6% o bobl ifanc 19 i 24 oed mewn rhyw fath o addysg neu hyfforddiant ac mewn cyflogaeth yn 2019. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain naill ai'n fyfyrwyr mewn addysg lawn amser a oedd hefyd yn gweithio'n rhan-amser neu'n fyfyrwyr mewn addysg neu hyfforddiant rhan-amser a oedd hefyd yn gweithio'n llawn amser.

## Addysg a hyfforddiant

- Roedd 39.5% o bobl ifanc 19 i 24 oed yn cymryd rhan mewn rhyw fath o addysg neu hyfforddiant (llawn amser neu ran-amser) yn 2019.
- Roedd 29.3% o bobl ifanc 19 i 24 oed mewn addysg lawn amser yn 2019, i fyny o 28.2% yn 2018.
- Roedd cyfran uwch o ferched, 31.8% mewn addysg lawn amser o gymharu â 27.1% o fechgyn 19 i 24 oed yn 2019.
- Roedd 13,900 (5.8%) o bobl ifanc 19 i 24 oed yn cymryd rhan mewn hyfforddiant (cyrsiau dysgu seiliedig ar waith a hyfforddiant cysylltiedig â swydd) yn 2019, gyda chyfranogiad ymysg merched yn 5.5% a bechgyn yn 6.1%.
- Roedd cyfranogiad mewn addysg lawn amser yn gostwng gydag oedran. O'r holl bobl ifanc 19 oed, roedd 54.4% mewn addysg lawn amser yn 2019 o gymharu ag 19.8% o bobl ifanc 22 oed a 9.0% o bobl ifanc 24 oed.

## Ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)


- Amcangyfrifwyd bod 37,400 o bobl ifanc 19 i 24 oed (15.7%) yn NEET yn 2019, gostyngiad o gymharu ag 16.0% yn 2018.
- Roedd 16.3% o ferched 19 i 24 oed yn NEET o gymharu â 15.2% o fechgyn yn 2019.
- Roedd y 37,400 o bobl ifanc 19 i 24 oed yr amcangyfrifwyd eu bod yn NEET yn 2019 yn cynnwys 11,600 o bobl ifanc ddi-waith a oedd yn economaidd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

anweithgar.

Mae Siart 3 yn cymharu cyfranogiad mewn addysg lawn amser yn ôl lefel astudio yn 2019 o gymharu â'r sefyllfa yn 2014. Er bod cyfranogiad mewn addysg lawn amser yn gostwng gydag oedran, roedd cyfraddau cyfranogiad pobl ifanc 18 i 24 oed yn uwch yn 2019 na 5 mlynedd ynghynt. I'r rhai 16 oed, gostyngodd cyfranogiad mewn addysg lawn amser 8.8 pwynt canran yn 2019 o gymharu â 2014. I'r rhai 17 oed, gostyngodd y cyfranogiad hwn 7.7 pwynt canran.

## Siart 3: Cyfranogiad mewn addysg lawn amser yn ôl lefel astudiaeth ac oedran, 2014 a 2019




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Y Brifysgol Agored ac CCAUC

**Cyfranogiad oedolion a phobl ifanc ar gyfer StatsCymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# 4. Cyd-destun Polisi/Gweithredol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno cipolwg blynyddol ar gyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r ystadegau i fonitro tueddiadau yn lefel cyfranogiad addysg a hyfforddiant, a chyfran pobl ifanc sy'n NEET.

Cyhoeddwyd y **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid** ym mis Ionawr 2013, a chynllun gweithredu ym mis Hydref 2013. Mae'r Fframwaith yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r fframwaith yn seiliedig ar 6 elfen allweddol:

- Nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio
- Gwell broceriaeth a chydgysylltu o ran cymorth
- Prosesau tracio a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc
- Atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth
- Gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc

Mae lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET hefyd yn rhan o **Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd**.

Mae dangosyddion ynghylch cyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn rhan o asesiad cynnydd blynyddol y **Strategaeth Tlodi Plant**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# 5. Gwybodaeth allweddol o ansawdd

## Perthnasedd

Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r ystadegau i fonitro tueddiadau yn lefel cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant, a chyfran pobl ifanc sy'n NEET.

Mae defnyddwyr allweddol eraill yr ystadegau hyn yn cynnwys:

- aelodau o'r Senedd a Gwasanaeth Ymchwil Senedd Cymru
- adrannau eraill y llywodraeth
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion

## Cywirdeb

### Amrywioldeb wrth Samplu

Mae cyfrannau statws economaidd yn cael eu hamcangyfrif o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Felly, bydd yr amcangyfrifon hyn yn amrywio yn sgil camgymeriadau samplu a chamgymeriadau eraill a dylid eu trin yn ofalus. O ganlyniad, mae angen dehongli newidiadau mewn tueddiadau yn ofalus, gan y gallent ddeillio o effeithiau samplu yn ogystal ag effeithiau go iawn. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng yr effeithiau hyn.

### Polisi diwygiadau

Bydd ffigurau dros dro 2019 yn cael eu datgan yn derfynol yng nghyhoeddiad y flwyddyn nesaf, sydd i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon dros dro ar gyfer 2018 a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyhoeddwyd yn natganiad y llynedd a’r amcangyfrif terfynol a gyhoeddwyd ar gyfer y gyfres allweddol o’r gyfran sy’n NEET, a’r gyfran sydd mewn addysg neu hyfforddiant.

| | NEET | | Mewn addysg neu hyfforddiant | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Y cant | Nifer | Y cant |
| **16 i 18 oed** | | | | |
| **Dros dro 2018** | 10,300 | 10.3 | 78,900 | 78.3 |
| **Terfynol 2018** | 10,800 | 10.6 | 78,700 | 77.6 |
| **Gwahaniaeth** | 400 | 0.3 | -200 | -0.7 |
| **19 i 24 oed** | | | | |
| **Dros dro 2018** | 39,100 | 16.2 | 93,200 | 38.4 |
| **Terfynol 2018** | 38,500 | 16.0 | 93,700 | 38.8 |
| **Gwahaniaeth** | -600 | -0.2 | 500 | 0.4 |

Dim ond yn unol â diwygiadau i ddata gwreiddiol y gwneir diwygiadau ar gyfer blynyddoedd cynharach. Yn ddiweddar, ail-bwyswyd data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn ôl i 2012, ac mae'r gyfres wedi'i diweddaru gyda'r data newydd hyn. Efallai na fydd y cyfansymiau'n cyfateb oherwydd talgrynnu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Cymariaethau â blynyddoedd blaenorol

Gwnaed newidiadau i’r ffynonellau data a’r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gael yr amcangyfrifon cyfranogiad a gyflwynwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 2004. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu’r amcangyfrifon hyn gydag amcangyfrifon o ddiwedd blwyddyn 2004 ymlaen. Cysylltwch â ni am gyngor cyn defnyddio cymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

Yn arbennig, mae angen ystyried y newidiadau canlynol wrth wneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Cyhoeddir y datganiad ystadegol hwn bob blwyddyn ym mis Gorffennaf ac mae’n cwmpasu diwedd y flwyddyn flaenorol (data dros dro) a’r flwyddyn gynt (data terfynol).

## Hygyrchedd ac eglurder

Mae’r datganiad ystadegol hwn yn cael ei gyn-gyhoeddi ac yna ei gyhoeddi ar wefan Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru. Mae’r holl ddata sylfaenol ar gyfer y datganiad hwn a blynyddoedd eraill ar gael ar **wefan StatsCymru**.

## Agweddau cymharydd a chydlyniant

Ar gyfer y datganiad hwn, amcangyfrifwyd cyfranogiad mewn addysg ac yn y farchnad lafur drwy ddefnyddio data poblogaeth, addysg a dysgu seiliedig ar waith ynghyd â’r Arolwg Poblogaeth Blynyddol i amcangyfrif statws y farchnad lafur. Mae rhagor o wybodaeth am y ffynonellau hyn a tharddiad yr ystadegau a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyflwynir yn y datganiad hwn ar gael yn ein **nodyn methodoleg**.

Yn ogystal â'r datganiad hwn rydym yn cyhoeddi bwletin **Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)** i ddarparu ystadegau NEET mwy amserol a manwl (ond nid yn llai cadarn yn ystadegol) i ddefnyddwyr yn seiliedig ar yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn unig.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ac sy'n arwydd eu bod yn cydymffurfio â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus uchaf.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Maent yn derbyn statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni'r safonau uchaf o ran cydymffurfiaeth â'r Cod, yn cynnwys y gwerth maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau cyhoeddus a thrafodaeth. Cadarnhawyd dynodiad yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol ym mis Gorffennaf 2012 yn dilyn **asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer**.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Wedi cynnwys nifer o ddelweddau gweledol yn dangos tueddiadau hirdymor yn ogystal â sylwadau ar y tueddiadau hyn
- Cael gwared ar dablau diangen o'r datganiad gan eu bod ar gael ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**StatsCymru**

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynnal cydymffurfiaeth â’r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu a yw’r ystadegau hyn yn dal i fodloni’r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon gyda’r Awdurdod yn ddi-oed. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan na fydd y safonau uchaf yn cael eu cynnal, a’u hailgyflwyno pan fydd safonau’n cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mae’r rhain er mwyn sicrhau Cymru sy’n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) sy’n rhaid eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) cyflwyno copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynwyd y 46 dangosydd cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae’r datganiad hwn yn cynnwys un o’r dangosyddion cenedlaethol:

- (22) Canran o bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, a fesurir ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, a’r naratifau ar gyfer pob un o’r nodau llesiant a’r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf mae’n rhaid cyfeirio atynt mewn dadansoddiadau o lesiant lleol a gynhyrchir gan fyrddau gwasanaethau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. E-bostiwch yr adborth i **ystadegau.addysgol16@llyw.cymru**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Jonathan Ackland
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 8067
E-bost: **ystadegau.addysgol16@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 95/2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ar-farchnad-lafur-2018-2019-dros-dro-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.